



I:

Sefydliadau addysg uwch yng Nghymru sy'n darparu cyrsiau addysg uwch dynodedig
Sefydliadau addysg bellach yng Nghymru sy'n darparu cyrsiau addysg uwch dynodedig
Darparwyr eraill sy'n darparu cyrsiau addysg uwch dynodedig
Y Cwmni Benthyciadau i Fyfrwyr
Gwasanaeth Derbyn y Prifysgolion a'r Colegau (UCAS)
Y Brifysgol Agored yng Nghymru
Grŵp Rhanddeiliaid Cyllid Myfyrwyr Cymru
Undeb Cenedlaethol Myfyrwyr Cymru
Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
Prifysgolion Cymru
Colegau Cymru
a phartïon eraill a chanddynt fuddiant

Awst 2018

Annwyl Gydweithiwr

DIWYGIADAU I REOLIADAU CYMORTH I FYFYRWYR

Mae'r hysbysiad gwybodaeth hwn yn ymwneud â'r diwygiadau a wnaethpwyd gan Reoliadau Addysg (Cymorth i Fyfrwyr) (Cymru) (Diwygio) 2018 ("Rheoliadau Diwygio 2018") a chan Reoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2018 (Rheoliadau Diwygio Cyllid Myfyrwyr 2018"). Daeth Rheoliadau Diwygio 2018 i rym ar 1 Awst 2018, a daeth Rheoliadau Diwygio Cyllid Myfyrwyr 2018 i rym ar 30 Gorffennaf 2018.

Mae Rheoliadau Diwygio 2018 yn diwygio Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfrwyr) (Cymru) 2018.

Mae Rheoliadau Diwygio Cyllid Myfyrwyr 2018 yn diwygio:

- Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfrwyr) (Cymru) 2018;
- Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfrwyr) (Cymru) 2017;
- Rheoliadau Addysg (Ffioedd a Dyfarniadau) (Cymru) 2007;
- Rheoliadau Addysg (Athrofa Brifysgol Ewropeaidd) (Cymru) 2014;
- Rheoliadau Addysg Uwch (Cyrsiau Cymhwysol, Personau Cymhwysol a Darpariaeth Atodol) (Cymru) 2015;



Hysbysiad Gwybodaeth Cyllid Myfyrwyr Cymru (SFWIN03 /2018)

- Rheoliadau Addysg (Benthyciadau at Radd Feistr Ôl-raddedig) (Cymru) 2017; a
- Rheoliadau Addysg (Benthyciadau at Radd Ddoethurol Ôl-raddedig) (Cymru) 2018.

Darperir crynodeb o'r diwygiadau a wnaethpwyd gan Reoliadau Diwygio Cyllid Myfyrwyr 2018 yn Atodiad A, a darperir crynodeb o'r diwygiadau a wnaethpwyd gan Reoliadau Diwygio 2018 yn Atodiad B. Mae'r ddwy set o Reoliadau ar gael yn <http://www.legislation.gov.uk/wsi/2018/814/contents/made/welsh> a <http://www.legislation.gov.uk/wsi/2018/813/contents/made/welsh> yn ôl eu trefn.

YMHOLIADAU

Os oes gennych chi unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r Hysbysiad Gwybodaeth hwn, cysylltwch ag Is-adran Addysg Uwch Llywodraeth Cymru drwy e-bostio HEDConsultationMailbox@llyw.cymru

Atodiad A

Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2018

Crynodeb o'r diwygiadau a wnaed i Reoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018

Categoriâu newydd o fyfyrwyr cymwys

- categori newydd o bersonau: personau y rhoddwyd caniatâd iddynt aros fel personau diwladwriaeth ac aelodau o'u teuluoedd.
- diwygiad i ddiffiniad 'person sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros ac aelodau o'u teuluoedd' i gynnwys person sydd wedi cael caniatâd i aros ar sail bywyd preifat o dan y rheolau mewnfudo.

Diwygiadau eraill

- Diwygiad i reoliad 14 o Reoliadau 2018 fel nad yw'r cyfnod cymhwystra hwyaf a gyfrifir yn unol â pharagraff (2) yn gymwys i grantiau ar gyfer dibynyddion neu fyfyrwyr anabl.
- Diwygiad i reoliad 16 yn darparu bod myfyrwyr cymwys sydd wedi cwblhau cwrs llawn-amser ar gyfer y Dystysgrif Addysg Uwch neu radd arferol, ac sy'n mynd ymlaen i ymgymryd ag astudiaeth bellach benodol, yn ddarostyngedig i'r cyfnod cymhwystra hwyaf. Diwygiad ychwanegol i Reoliad 16 i sicrhau nad yw'r cyfrifiad o'r cyfnod cymhwystra hwyaf yn gymwys i grantiau ar gyfer dibynyddion neu fyfyrwyr anabl.
- Diwygiad i destun Cymraeg pbaragraff (4) o reoliad 30, i sicrhau bod ystyr y testun yn golygu'r un peth â'r testun Saesneg.
- Rheoliad newydd 34A sy'n darparu bod gan Weinidogion Cymru ddisgresiwn i drin myfyriwr sydd wedi cael hysbysiad anghywir ganddynt ei fod yn gymwys mewn achosion pan na fo'r wybodaeth neu'r ddogfennaeth a ddarparwyd gan y myfyriwr, mewn perthynas â'i gais am gymorth, yn sylweddol anghywir, yn fyfyriwr cymwys.
- Diwygiad mewn perthynas ag uchafswm y benthyciad at ffioedd dysgu i fyfyrwyr cymwys sy'n ymgymryd â blwyddyn Erasmus o gwrs llawn-amser a ddarperir gan sefydliad yng Nghymru, Lloegr neu'r Alban. Mae hefyd yn diwygio uchafswm y benthyciad at ffioedd dysgu i fyfyrwyr Categori 4 yn rheoliad 40, sy'n astudio gyda darparwr cwrs arferol sydd yn yr Alban.

Hysbysiad Gwybodaeth Cyllid Myfyriwr Cymru (SFWIN03 /2018)

- Diwygiad yn darparu na fydd y myfyriwr yn cael grant cynhaliath ar sail asesiad incwm os yw incwm aelwyd y myfyriwr rhan-amser yn £59,200 neu ragor.
- Caiff Eithriad 5 ei ddileu, fel bod myfyriwr cymwys sy'n astudio ar gyrsiau sy'n arwain at gymhwyster fel pensaer tirwedd, dylunydd tirwedd, rheolwr tirwedd, cynllunydd tref neu gynllunydd gwlad a thref yn cymhwyso i gael benthyciad cynhaliath.
- Diwygiadau i reoliadau 65 a 66 i addasu symiau trothwy incwm aelwyd myfyriwr cymwys at ddibenion cyfrifo grant at deithio ar gyfer myfyriwr meddygol (rheoliad 65) a grant at deithio ar gyfer astudio neu weithio dramor (rheoliad 66).
- Diwygiad i ddiffiniad o "berthynas agos" ym mharagraff 6(1) o Atodlen 1.
- Diwygiad i'r term "sefydliad addysgol cydnabyddedig" i "sefydliad a gyllidir yn gyhoeddus", ym mharagraff 2(2) yn Atodlen 4 er mwyn bod yn gyson ag Amod 4 o baragraff 2(1).
- Mân ddiwygiadau i dtestun Cymraeg paragraffau 2(2)(c) a 9(c) o Atodlen 4 i Reoliadau 2018, i sicrhau bod ystyr y testun yn golygu'r un peth â'r testun Saesneg.

Crynodeb o ddiwygiadau i Reoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyriwr) (Cymru) 2017

Categoriâu newydd o fyfyriwr cymwys

- Ceir pedwar diffiniad newydd: "perthynas agos", "rheolau mewnfudo", "aelod o'r lluoedd arfog", a "person y rhoddwyd caniatâd iddo aros fel person diwladwriaeth" eu mewnosod. Mae'r diffiniad o "person sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros" hefyd yn cael ei ddiwygio i sicrhau bod personau sydd â chaniatâd i aros ar sail bywyd preifat, ac aelodau o'u teuluoedd, yn cael eu cynnwys yn y categori perthnasol o fyfyriwr cymwys.
- Diwygiadau i Atodlen 1 sy'n digwydd fel canlyniad i ddiwygio'r diffiniad o "person sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros" ac i greu categori newydd o fyfyriwr cymwys: personau y rhoddwyd caniatâd iddynt aros fel personau diwladwriaeth ac aelodau o'u teuluoedd.

Diwygiadau eraill

- Diwygiad i reoliad 6 fel nad yw'r cyfrifiadau o'r cyfnod cymhwystra hwyaf ym mharagraffau (8) ac (11) yn gymwys i grantiau ar gyfer dibynyddion neu fyfyrwyr anabl. Mae'r diwygiadau hefyd yn darparu bod myfyrwyr cymwys sydd wedi cwblhau cwrs llawn-amser ar gyfer y Dystysgrif Addysg Uwch neu radd arferol, ac sy'n mynd ymlaen i ymgymryd ag astudiaeth bellach benodol, yn ddarostyngedig i'r cyfnod cymhwystra hwyaf a gyfrifir yn unol â pharagraff (11).
- Esemptiad i'r gofynion bod rhaid i fyfyrwr cymwys ymgymryd â'i gwrs dysgu o bell yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs, ac ymgymryd â'r cwrs hwnnw yn y Deyrnas Unedig, er mwyn bod yn gymwys i gael cymorth at ffioedd.
- Esemptiad i'r gofynion bod rhaid i fyfyrwr cymwys ymgymryd â'i gwrs dysgu o bell yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs, ac ymgymryd â'r cwrs hwnnw yn y Deyrnas Unedig, er mwyn bod yn gymwys i gael grant at gostau byw myfyriwr anabl.
- Diwygiad i reoliad 41 gan ddileu paragraff (4), fel bod myfyrwyr cymwys sy'n astudio ar gyrsiau sy'n arwain at gymhwyster fel pensaer tirwedd, dylunydd tirwedd, rheolwr tirwedd, cynllunydd tref neu gynllunydd gwlad a thref yn cymhwyso i gael benthyciad at gostau byw.
- Diwygiad i reoliad 81 i ddarparu esemptiadau i'r gofynion bod rhaid i fyfyrwr rhan-amser cymwys ymgymryd â'i gwrs dysgu o bell yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs, ac ymgymryd â'r cwrs hwnnw yn y Deyrnas Unedig, er mwyn bod yn gymwys i gael cymorth o dan reoliadau 85 i 88.

Crynodeb o ddiwygiadau i Reoliadau Addysg (Ffioedd a Dyfarniadau) (Cymru) 2007

- Diwygiad i reoliad 5 a'r Atodlen i gynnwys personau sydd wedi cael caniatâd i aros ar sail bywyd preifat yn y diffiniad o "person sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros" ac i fewnosod categori newydd o "personau y rhoddwyd caniatâd iddynt aros fel personau diwladwriaeth ac aelodau o'u teuluoedd".

Crynodeb o ddiwygiadau i Reoliadau Addysg (Athrofa Brifysgol Ewropeaidd) (Cymru) 2014

- Diwygiadau i sicrhau bod personau sydd wedi cael caniatâd i aros ar sail bywyd preifat ac aelodau o'u teuluoedd wedi eu cynnwys yn y categori presennol o fyfyrwr cymwys "personau sydd â chaniatâd i ddod mewn neu i aros ac aelodau o'u teuluoedd" ac i greu categori newydd o fyfyrwr cymwys: "personau y rhoddwyd caniatâd iddynt aros fel personau diwladwriaeth ac aelodau o'u teuluoedd".

Crynodeb o ddiwygiadau i Reoliadau Addysg Uwch (Cyrsiau Cymhwysol, Personau Cymhwysol a Darpariaeth Atodol) (Cymru) 2015

- Diwygiadau i'r Atodlen i sicrhau bod personau sydd â chaniatâd i aros ar sail bywyd preifat yn cael eu cynnwys yn y diffiniad o "person sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros" ac i ychwanegu categori newydd: "personau y rhoddwyd caniatâd iddynt aros fel personau diwladwriaeth ac aelodau o'u teuluoedd". Mae'r Atodlen honno'n rhestru'r personau hynny a allai fod yn bersonau cymhwysol.

Crynodeb o ddiwygiadau i Reoliadau Addysg (Benthyciadau at Radd Feistr Ôl-raddedig) (Cymru) 2017 a Rheoliadau Addysg (Benthyciadau at Radd Ddoethurol Ôl-raddedig) (Cymru) 2018

Diwygiadau i Atodiad 1 ym mhob set o'r rheoliadau gan greu categori newydd: "personau y rhoddwyd caniatâd iddynt aros fel personau diwladwriaeth ac aelodau o'u teuluoedd" - a diwygio'r diffiniad o "person sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros" i gynnwys personau sydd â chaniatâd i aros ar sail bywyd preifat o dan y Rheolau Mewnfudo.

Atodiad B

Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) (Diwygio) 2018

Crynodeb o ddiwygiadau i Reoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018

- Pan fo incwm aelwyd myfyriwr yn fwy na £18,370 ond yn llai na £59,200, wedi ei ostwng £1 am bob £5.750 o incwm aelwyd sy'n fwy na £18,370 pan fo'r myfyriwr yn byw oddi cartref, ac yn astudio yn rhywle ac eithrio Llundain.
- Diwygiad sydd yn gwneud darpariaeth ar gyfer cyfrifo swm y benthyciad cynhaliaeth sy'n daladwy i fyfyrwyr llawn-amser sy'n cymhwyso i gael taliad cymorth arbennig o dan reoliad 50 o Reoliadau 2018.
- Caiff rheoliad 58A newydd ei mewnosod yn y rheoliadau. Mae rheoliad 58A yn gwneud darpariaeth ar gyfer cyfrifo'r benthyciad cynhaliaeth sy'n daladwy i fyfyrwyr rhan-amser sy'n cymhwyso i gael taliad cymorth arbennig o dan reoliad 50 o Reoliadau 2018.
- Mae rheoliadau 81, 93, 94 a 95 o Reoliadau 2018 yn ymdrin â chyfrifo'r hawl i gael benthyciad cynhaliaeth pan fo myfyriwr yn gymwysi gael cymorth ond, am gyfnod yn ystod y flwyddyn academaidd, yn absennol o'r cwrs neu fod ei gyfnod cymhwystra yn dod i ben neu'n cael ei derfynu.